Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021

www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddESS**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddESS@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddESS**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddESS

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Russell George AS**
Ceidwadwyr Cymreig

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Suzy Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Helen Mary Jones AS**
Plaid Cymru



**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd .......... 5**

**1. Ymgysylltu â phobl Cymru .......... 7**

**2. Gwaith Craffu yn y Bumed Senedd .......... 10**

Cefndir .......... 10

Yr economi .......... 11

Seilwaith .......... 14

Trafnidiaeth .......... 15

Sgiliau, ymchwil ac arloesedd .......... 17

Perthynas Cymru â'r UE/Cymru ar ôl Brexit .......... 19

Eitemau craffu rheolaidd fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 16.1 .......... 19

**3. Deddfwriaeth a gyfeiriwyd at y Pwyllgor .......... 20**

Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) .......... 20

Gwaith Craffu ar ôl Deddfu ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 .......... 20

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol .......... 21

**4. Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd .......... 22**

Yr Economi .......... 23

Seilwaith .......... 25

Trafnidiaeth .......... 26

Sgiliau ac ymchwil ac arloesedd .......... 27

Perthynas Cymru â'r UE/Cymru ar ôl Brexit .......... 28

Cyffredinol .......... 28

Cyngor i aelodau'r dyfodol .......... 28

# Rhagair y Cadeirydd

## Wrth i ni ysgrifennu’r adroddiad hwn, cefais fy atgoffa o sesiwn strategaeth a gynhaliom fel Pwyllgor newydd yn 2016. Fel rhan o’r sesiwn honno, buom yn trafod yr hyn yr oeddem am i bobl feddwl am y Pwyllgor yn 2021 gan benderfynu ar rai targedau. Roeddent yn cynnwys bod yn ddylanwadol, llunio argymhellion ystyrlon, cael eu parchu gan randdeiliaid a gallu newid polisi’r Llywodraeth. Gobeithio mai felly yr ydym yn cael ein gweld heddiw.


Bryd hynny, nid wyf yn credu y byddai unrhyw un wedi rhagweld beth fyddai wedi digwydd yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae'n debyg mai’r Tymor Seneddol hwn fu’r mwyaf cythryblus yn hanes y sefydliad gydag anghydfod cyhoeddus yn gyntaf yn sgil canlyniad refferendwm Brexit ac yna Pandemig COVID-19. Fodd bynnag, yn ystod yr amser cythryblus hwn, parhaodd y Pwyllgor i ganolbwyntio ar ein tasg o graffu ar bolisi a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, gan anelu at fod y Pwyllgor yr oeddem yn ei ragweld yn ystod y sesiwn strategaeth honno.

Mae gan y Pwyllgor gylch gwaith eang ac amrywiol ac roedd sicrhau ein bod yn rhoi amser a sylw dyladwy i bob elfen yn her, ond rwy’n credu serch hynny ein bod wedi cyflawni hynny. Yn sicr, gwnaeth ein gwaith ar Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru ddal dychymyg y cyhoedd. Un o fy hoff atgofion o gadeirio’r pwyllgor hwn yw beirniadu ein cystadleuaeth ffotograffiaeth tyllau yn y ffordd. Cafodd ein hymchwiliad Mynediad at Fancio sylw yn y penawdau gan dynnu sylw at effeithiau difrifol cau banciau ar bobl sy’n agored i niwed a busnesau bach. Fe glywsom hefyd am y gwaith ymchwil ac arloesedd gwych sy’n digwydd yng Nghymru a’r hyn sydd angen ei wneud i gryfhau’r sector. Mae’n amlwg i mi y bydd ymchwil ac arloesedd yn adnodd allweddol i helpu Cymru i ailadeiladu’n gryfach ar ôl y pandemig.

Er fy mod i’n gobeithio y bydd Tymor nesaf y Senedd yn llawer llai cythryblus na hyn, gwn y bydd ein pwyllgor neu bwyllgorau olynol yn dal i fod yn brysur iawn yn craffu ar faterion fel datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol, datblygu rhanbarthol gan gynnwys cynnydd ein pedair Bargen Dwf a datblygiad pellach ein sector sgiliau gan gynnwys y rhaglen brentisiaeth. Bydd angen gwneud hyn, wrth gwrs, ochr yn ochr â materion enfawr sy’n cynnwys adferiad tymor hir o

COVID-19 a sut i fachu ar y cyfleoedd ac wynebu'r heriau a gyflwynir yn sgil y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae fy nghyfrifoldeb wedi bod yn fraint mawr ac rwyf wedi mwynhau fy amser yn cadeirio Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Bumed Senedd. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r holl Aelodau presennol a blaenorol, pawb sydd wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor neu wedi darparu tystiolaeth dros y pum mlynedd diwethaf yn ogystal â thîm cymorth y Pwyllgor yn y Senedd.



**Russell George AS**
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

# 1. Ymgysylltu â phobl Cymru

Mae'r Pwyllgor wedi gweithio'n galed dros y pum mlynedd diwethaf i feithrin perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ei waith mewn gwahanol ffyrdd sydd wedi'u haddasu i'r pwnc a'r gynulleidfa ar gyfer ei ymchwiliadau. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau rhanddeiliaid rheolaidd a chylchlythyr bwletin, ymweliadau allanol, gwaith grŵp ffocws, arolygon a hyd yn oed cystadleuaeth ffotograffiaeth.

**1.** Cyhoeddodd y Pwyllgor gyfanswm o 14 o fwletinau cylchlythyr ar gyfer rhanddeiliaid dros y Bumed Senedd, ac fe fu ar 16 ymweliad i glywed tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau mewn gwahanol leoliadau o amgylch y Deyrnas Unedig a Brwsel.

**2.** Yn 2016, cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad brecwast busnes ym Myd y Badau, Bae Caerdydd, fel rhan o ymchwiliad undydd i ddiwygio Ardrethi Busnes. Yn 2017 cynhaliodd yr Aelodau ddigwyddiad gweithdy yn yr Amwythig gyda chymorth Transport Focus, ochr yn ochr ag arolwg ar-lein mawr, fel rhan o'i ymchwiliad i'r fasnachfraint reilffordd newydd. Wrth ystyried datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol, aeth y Pwyllgor i gwrdd â Transport for Greater Manchester, Transport for the North ac Awdurdod Cyfun Rhanbarth Dinas Lerpwl.

**3.** Ymwelodd yr Aelodau â Glasgow hefyd fel rhan o waith ar Fargeinion Dinesig. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar i'r perchnogion busnes a gymerodd ran mewn fideo a wnaed i gyd-fynd â'i adroddiad ar seilwaith digidol. Ac yn 2017 roedd gan yr Aelodau raglen undydd orlawn o gyfarfodydd ym Mrwsel i lywio ei ymchwiliad Gwerthu Cymru i'r Byd.

**4.** Yn 2018 ymwelodd yr Aelodau ag ardaloedd Menter Gogledd Cymru, ac aethant i Lundain i gwrdd â'r Athro Graham Reid ac arbenigwyr yn Ymddiriedolaeth Wellcome, swyddogion Llywodraeth yr Alban yn Scotland House, ac Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI). Ar gyfer yr ymchwiliad hwnnw, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod allanol ar gampws Prifysgol De Cymru yn Nhrefforest, ac ymwelodd â Chanolfan Ymchwil Canser Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru. O fewn yr amserlen fusnes, bu'r Aelodau yn gwneud ymweliadau yn agosach i'r Senedd, gan gynnwys Coleg Caerdydd a'r Fro, Cymdeithasau Adeiladu'r

Principality a Nationwide, Uwchgyfrifiadura Prifysgol Caerdydd, Maes Awyr Caerdydd a Chanolfan Cynnal a Chadw British Airways.

**5.** Cynhaliodd y Pwyllgor wyth digwyddiad rhanddeiliaid yn Senedd Cymru. Cawsant eu defnyddio i ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a chasglu barn yn fwy anffurfiol, o ran ymholiadau a gynlluniwyd ac i helpu i lywio cyfeiriad strategol y rhaglen waith. Yn 2017 cyhoeddodd y Pwyllgor ganlyniad seminarau ymgynghori ar Strategaeth Economaidd newydd Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio Adobe Spark. Roedd gweithdai rhanddeiliaid eraill yn ymwneud ag adolygiad yr Athro Diamond o addysg uwch a chyllid myfyrwyr, yr ardoll brentisiaethau, seilwaith, adfywio canol trefi a'r Papur Gwyn ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus, yn ogystal ag ymgynghori ar flaenoriaethau rhaglen waith y Pwyllgor.

**6.** Cynhaliodd y Pwyllgor arolygon a gwaith grŵp ffocws ar gyfer ei ymchwiliad i Fynediad at Fancio ac ar effeithiau COVID-19. Hefyd, cynhaliwyd cystadleuaeth ffotograffiaeth er mwyn hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd â gwaith y Pwyllgor ar 'Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru'.

**7.** Mae'r Pwyllgor yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cynnal a chymryd rhan yn ein hymweliadau, cyfarfodydd, grwpiau ffocws a digwyddiadau rhanddeiliaid dros y pum mlynedd diwethaf. Mae tîm allgymorth a chyfathrebu'r Senedd wedi gweithio'n galed i'n helpu ni i ymgysylltu â'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Kate Faragher o BeSpokeSkills am ei gwaith hwyluso rhagorol yn y sesiynau i osod ein cyfeiriad strategol a gwella effeithiolrwydd ein gwaith craffu. Mae eich holl gyfraniadau a'ch cydweithrediad wedi cryfhau ein gallu i ddwyn Llywodraeth Cymru hon i gyfrif a gwasanaethu'r rhai yr ydym yn eu cynrychioli fel Aelodau yn well.

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

## Ein gwaith yn ystod y Bumed Senedd

**49**

ADRODDIAD PWYLLGOR

**142**

CYFARFOD PWYLLGOR

**463**

O YMDDANGOSIADAU GAN DYSTION

DIGWYDDIADAU I RANDDEILIAID

**16**

**20**

DADL PWYLLGOR

# 2. Gwaith Craffu yn y Bumed Senedd

Mae'r adran hon yn rhoi cefndir cryno o sut y bu'r Pwyllgor yn gweithredu trwy'r Bumed Senedd. Yn dilyn hynny bydd adrannau sy'n amlinellu materion allweddol a archwiliwyd gan y Pwyllgor, wedi'u rhannu yn gylchoedd gwaith yr economi, seilwaith, trafnidiaeth a sgiliau.

## Cefndir

**8.** Ar ddechrau'r Bumed Senedd, ymgynghorodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar beth ddylai ei flaenoriaethau fod, a daeth 49 o ymatebion i law i lywio cyfeiriad strategol ei waith. Dros gyfnod 2016-2020, roedd rhaglen waith y Pwyllgor yn anelu at gydbwysedd o waith ymchwilio polisi ar draws tair elfen ei gylch gwaith – yr economi, seilwaith (seilwaith trafnidiaeth yn bennaf) a sgiliau (sydd hefyd yn cynnwys ymchwil ac arloesedd).

**9.** Ym mis Mawrth 2020, gorfododd pandemig COVID-19 i atal holl fusnes y Senedd dros dro, gan gynnwys busnes Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau. Yn dilyn toriad y Pasg, ailddechreuodd busnes y Pwyllgor, ond lleihawyd nifer y cyfarfodydd i bob pythefnos ac fe gawsant eu cynnal trwy fideogynhadledd. O dymor yr hydref 2020, cynhaliwyd cyfarfodydd pwyllgor wythnosol unwaith eto, ond roeddent yn parhau i gael eu cynnal trwy gyswllt fideo.

**10.** O ailddechrau busnes tan ganol hydref 2020, roedd yr Aelodau'n teimlo ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor yn blaenoriaethu ymateb i argyfwng COVID-19; gohiriodd yr Aelodau yr ymchwiliadau a oedd wedi'u cynllunio ac yn lle hynny, crëwyd rhaglen waith frys yn canolbwyntio ar effeithiau'r pandemig. Yng nghanol yr hydref, er mai'r pandemig oedd blaenoriaeth a ffocws y Pwyllgor o hyd, roedd yr Aelodau'n teimlo'n gyfforddus i ailgyflwyno elfen o waith nad oedd yn ymwneud â'r pandemig ac i orffen gwaith ymchwilio a gafodd ei atal ym mis Mawrth.

**11.** Cyhoeddodd y Pwyllgor dri adroddiad yn ymwneud â'r pandemig:

- Effaith COVID-19: Crynodeb o'r Canfyddiadau Cychwynnol – adroddiad byr yn amlinellu pryderon brys oedd gan yr Aelodau ar draws portffolio'r Pwyllgor;
- Effaith COVID-19: Sgiliau – canfyddiadau cynnar – ail adroddiad byr yn amlinellu'n fanylach bryderon ym maes sgiliau'r portffolio;

- Adferiad tymor hir o COVID-19 – adroddiad cyfannol manwl ar sut beth ddylai adferiad fod ar draws cylch gwaith y Pwyllgor.

**12.** Mae rhagor o fanylion am gynnwys pob un wedi'u cynnwys yn yr adrannau thematig isod.

## Yr economi

**13.** Roedd dyfodol y diwydiant dur yn un o'r materion economaidd proffil uchaf ar ddechrau'r Bumed Senedd, a sbardun mawr i hyn oedd pryderon ynghylch dyfodol Gwaith Dur Port Talbot. Un o'r darnau cyntaf o waith a wnaeth y Pwyllgor oedd sesiwn undydd gyda busnesau, undebau a Llywodraeth Cymru. Yn dilyn y sesiwn hon ysgrifennodd y Cadeirydd at Brif Weinidog y DU. Mae pryderon ynghylch dyfodol gweithgynhyrchu Cymru, gan gynnwys dur, yn dal i fodoli yn enwedig o ganlyniad i'r pandemig, ac fe drafodir hynny yn adroddiad adferiad y Pwyllgor.

**14.** Mae **Ardrethi Busnes** wedi bod yn bwnc allweddol o ddiddordeb i'r Pwyllgor hwn ers dechrau'r Bumed Senedd. Rhyddhawyd adroddiad cyntaf y Pwyllgor yn dilyn ymchwiliad undydd ar Ardrethi Busnes a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016. Yn fwyaf diweddar, trafododd y Pwyllgor yr angen i ymestyn rhyddhad ardrethi busnes i sectorau sydd wedi'u taro'n galed. Ar 3 Mawrth cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ymestyn y rhyddhad ardrethi busnes ar gyfer sectorau hamdden, lletygarwch a manwerthu.

**15.** Yn ystod gwanwyn 2017, gan ragweld y byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth economaidd newydd, cynhaliodd y Pwyllgor seminarau a chyhoeddodd adroddiad ar rai safbwyntiau 'lleisiau amgen' ar yr hyn y gallai'r strategaeth ei gynnwys.

**16.** Mae'r Pwyllgor wedi bod yn edrych ar bwnc datblygu economaidd rhanbarthol yn rheolaidd. Ym mis Tachwedd 2017 cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad cyntaf ar weithgareddau Bargeinion Dinesig yng Nghymru. Ar y pryd dim ond dwy fargen ddinesig oedd yng Nghymru, fodd bynnag, roedd bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn "arwain y ffordd" ar gyfer yr hyn a fyddai'n datblygu yn Fargen Dwf Gogledd Cymru yn y pen draw, ac yng nghanolbarth Cymru roedd sylw'n troi at yr hyn a fyddai'n dod yn Fargen Dwf Canolbarth Cymru.

**17.** Wrth i'r Bargeinion ddatblygu, parhaodd y Pwyllgor i ddilyn eu datblygiad a'u cynnydd, gan gynnal sesiynau craffu blynyddol gydag arweinwyr pob Bargen. Cynhaliwyd y diweddaraf o'r rhain ar 3 Mawrth 2021.

**18.** Yn ogystal â'r Bargeinion Dinesig a Thwf mae'r Pwyllgor wedi edrych ar agweddau eraill ar ddatblygiad economaidd rhanbarthol. Yn 2018, bum mlynedd ar ôl eu sefydlu, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar Ardaloedd Menter. Yn 2020 cychwynnodd y Pwyllgor ymchwiliad i Dasglu'r Cymoedd; fodd bynnag, llwyddodd yr ymchwiliad i gwblhau ei gam ymgynghori yn unig cyn i ddigwyddiadau eraill gymryd drosodd a phenderfynodd yr Aelodau ail-flaenoriaethu i ganolbwyntio ar y pandemig COVID-19.

**19.** Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gyda Maria-Varinia Michalun, awdur adroddiad yr OECD ar ddyfodol datblygu rhanbarthol a buddsoddiad cyhoeddus yng Nghymru, ym mis Rhagfyr 2020.

**20.** Bu'r Pwyllgor yn craffu ar bolisi ac agwedd Llywodraeth Cymru tuag at adfywio yn ystod y Bumed Senedd, gyda Adfywio Canol Trefi: 5 Mlynedd yn ddiweddarach ym mis Chwefror 2018. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried rôl y rhaglen Trawsnewid Canol Trefi mewn perthynas â pholisi Llywodraeth Cymru ar weithio o bell yn y dyfodol.

**21.** Ym mis Awst 2018 cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad o'r enw Diwydiant 4.0 – Dyfodol Cymru. Roedd yr adroddiad hwn yn ystyried y 'Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol', datblygiadau mewn awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial. Roedd yn edrych ar eu heffaith a'r risgiau a'r cyfleoedd y maent yn eu cyflwyno i Gymru.

**22.** Ym mis Medi 2018 cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad Gwerthu Cymru i'r Byd. Roedd yr adroddiad hwn yn edrych tuag at y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ac yn archwilio sut y gwnaeth Cymru werthu ei hun i'r Byd o ran twristiaeth, addysg, a masnach a mewnfuddsoddi.

**23.** Cododd problemau gyda'r defnydd o Orchmynion Prynu Gorfodol wrth graffu ar waith Llywodraeth Cymru ar ailddatblygu canol trefi, a theithio llesol, gan arwain at adroddiad Pwyllgor ym mis Mehefin 2019.

**24.** Gwnaed llawer iawn o waith ymgysylltu â'r cyhoedd gydag ymchwiliad y Pwyllgor yn 2019 ar Fynediad at Fancio a chafodd canfyddiadau'r ymchwiliad sylw yn y wasg genedlaethol. Roedd yr ymchwiliad yn edrych ar effaith llai o fynediad at arian parod a changhennau banc ar unigolion, busnesau a chymunedau; materion arwyddocaol yn sgil allgáu digidol; a chymorth Llywodraeth Cymru i Fanc Cymunedol newydd arfaethedig, Banc Cambria. Mae sawl mater a nodwyd yn yr adroddiad, er enghraifft symud i daliadau heb arian parod, wedi cyflymu'n fawr yn sgil y pandemig.

**25.** Caffael – Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion eang i Lywodraeth Cymru yn 2020 ar rôl Caffael Cyhoeddus yn yr Economi Sylfaenol a chraffu ar y cynnydd o

ran ymateb i hyn, a bydd adolygiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - Caffael Llesiant yng Nghymru - yn bwysig yn y Chweched Senedd i helpu i ysgogi adferiad economaidd teg a gwyrdd.

**26.** Fel y soniwyd eisoes, ym mis Mawrth 2020, gorfodwyd i atal busnes y Pwyllgor dros dro yn sgil pandemig COVID-19. Pan ailddechreuodd busnes, cychwynnodd y Pwyllgor ar raglen waith frys yn canolbwyntio ar effeithiau'r pandemig. Ym mis Mehefin 2020 cyhoeddodd y Pwyllgor grynodeb o ganfyddiadau cychwynnol.

**27.** Edrychodd yr adroddiad ar yr ymateb cychwynnol, beth ddylai ddigwydd nesaf, gan dynnu sylw at fylchau mewn cymorth busnes a phryderon diogelwch yn y gweithle. Dau fater allweddol o'r adroddiad hwnnw sy'n parhau i fod yn berthnasol iawn yw cymorth sector-benodol a monitro a gwerthuso'r ymateb.

**28.** Dywedodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor ei fod am 'adeiladu'n ôl yn well' yn dilyn y pandemig. Penderfynodd yr Aelodau gychwyn ar archwiliad ar raddfa fawr o'r hyn y dylai hynny ei olygu ar draws cylch gwaith cyfan y Pwyllgor.

**29.** Ar 3 Mawrth 2021 cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad cynhwysfawr ar Adferiad Tymor Hir o COVID-19. Gyda thros 60 o dudalennau a 53 o argymhellion, hwn oedd yr adroddiad hiraf a gyhoeddodd y Pwyllgor. Dylid darllen yr adroddiad yn ei chyfanrwydd, ond o safbwynt economaidd roedd yn nodi:

- sut y dylid defnyddio cyllid ailadeiladu i adfywio ac ail-arfogi economi Cymru, gan ddefnyddio adferiad i fynd i'r afael â rhai materion endemig a wynebodd Cymru cyn y pandemig, ond hefyd hyrwyddo adferiad gwyrdd a pharatoi'r economi ar gyfer y dyfodol;
- cymorth parhaus a fydd ei angen ar sectorau y mae'r pandemig yn effeithio'n benodol arnynt;
- sut i sicrhau cydraddoldeb yn yr adferiad; ac
- yr hyn y mae angen i Lywodraeth Cymru ei wneud er mwyn rhoi diwedd ar y cynnydd enfawr mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc.

**30.** Yn ystod y cyfnod clo cyntaf yng Nghymru roedd tua 40 y cant o bobl yn gweithio gartref. Arweiniodd yr 'arbrawf mawreddog' hwn at lai o dagfeydd a llygredd aer yn ogystal ag enillion economaidd-gymdeithasol i rai. I gadw'r enillion hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru uchelgais i gael 30 y cant o weithwyr yn parhau i weithio o'u cartref neu'n agos atynt a hynny'n rheolaidd. O ganlyniad i'r

uchelgais hon, penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad - Gweithio o Bell: y Goblygiadau i Gymru.

**31.** Roedd yr Aelodau'n ymwybodol bod y polisi wrthi'n cael ei ddatblygu, felly cynlluniwyd yr ymchwiliad i fod yn ddarn byr o waith a fyddai'n canolbwyntio ar ddatblygu polisi ac ehangu'r sylfaen dystiolaeth. Edrychodd yr ymchwiliad ar effeithiau cadarnhaol a negyddol mwy o weithio o bell ar draws nifer o feysydd, ynghyd ag edrych ar ddatblygu hybiau ar gyfer gweithio o bell. Hefyd comisiynodd y Pwyllgor bapurau academaidd, sydd ar gael yn Saesneg yn unig, ar y pwnc: "Remote working – spatial implications in Wales" a "Outlining the contours of the 'great homeworking experiment' and its implications for Wales".

## Seilwaith

**32.** Yn 2016 craffodd y Pwyllgor ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar sefydlu **Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru**, i gael eglurder i randdeiliaid ar sut y byddai'n cael ei ddatblygu ac i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar y mater, gan gynnwys argymhelliad y dylai'r cadeirydd fod yn destun gwrandawiad cyn penodi gyda'r Pwyllgor perthnasol yn y Senedd.

**33.** Derbyniodd y Llywodraeth yr argymhelliad hwn ac ar 7 Mehefin 2018 cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer y Cadeirydd, John Lloyd Jones. Yna cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau craffu pellach gyda'r Comisiwn ar ei ddatblygiad a'i ganfyddiadau cychwynnol.

**34.** Gohiriwyd gwrandawiad cyn penodi disgwyliedig pellach ar gyfer Cadeirydd newydd y Comisiwn ar ôl i benodiad y Cadeirydd presennol gael ei estyn hyd at ddiwedd y Bumed Senedd, ond ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Awst 2019 i amlinellu pryderon ynghylch cyfeiriad strategol y Comisiwn a'i ddisgwyliadau yn y dyfodol ar gyfer statws a swyddogaethau'r Comisiwn a rôl y Cadeirydd. Ni chynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda'r Comisiwn ar ei Adroddiad Blynyddol 2020 oherwydd pwysau yn gysylltiedig â COVID-19.

**35.** Roedd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn arwain y cyfrifoldeb dros graffu ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft, cyn ei gyhoeddi fel Dyfodol Cymru: y cynllun cenedlaethol 2040. Fodd bynnag, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau oedd yn gyfrifol am graffu ar y materion seilwaith.

**36.** Roedd **cysylltedd a chau'r rhaniad digidol** yn ganolbwynt trwy gydol y Bumed Senedd, gydag adroddiadau ar Seilwaith Digidol yng Nghymru ym mis Medi 2017, a Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Ffonau Symudol ym mis Ionawr 2019. Roedd cysylltedd band eang a chynhwysiant digidol yn faterion allweddol yn adroddiadau'r Pwyllgor ar Fynediad at Fancio a Gweithio o Bell, a chraffwyd ar waith Gweinidogion o ran eu dull, yn fwyaf diweddar ar 24 Chwefror 2021.

**37.** Er bod tai yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn bennaf, cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad Rhwystrau sy'n wynebu cwmnïau bach sy'n adeiladu tai ym mis Ebrill 2020, a gwnaed gwaith ar y cyd â'r Pwyllgor Cyllid ar Daliadau cadw yn y sector adeiladu.

## Trafnidiaeth

**38.** Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar lywodraethu trafnidiaeth a threfniadau cyflenwi, gan graffu ar uchelgais Llywodraeth Cymru i gael rhwydwaith trafnidiaeth integredig, ac ar ei dull strategol o ddatgarboneiddio trafnidiaeth a chreu newid moddol, gan gynnwys trwy hyrwyddo teithio llesol.

**39.** Roedd datgarboneiddio trafnidiaeth a chyflawni newid moddol yn ganolog i ymchwiliad eang ac adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020. Rhagflaenwyd hyn gan argymhellion y Pwyllgor ar Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan ym mis Hydref 2019. Yn fwyaf diweddar, mae Adroddiad y Pwyllgor ar Adferiad Tymor Hir o COVID-19 yn cynnwys pedwar argymhelliad ar gyfer blaenoriaethau Adferiad Trafnidiaeth.

**40.** Roedd **dyfodol gwasanaethau rheilffordd** yn flaenoriaeth i'r Bumed Senedd. Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad Ar y trywydd iawn? Masnachfraint y Rheilffyrdd a Metro De Cymru. Dangosodd y Pwyllgor ddiddordeb mawr yn Datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol, gan adrodd ar ei gylch gwaith arfaethedig, ei swyddogaethau a'i drefniadau llywodraethu yn y dyfodol ym mis Mai 2019. Yn dilyn yr adroddiad cafwyd sesiwn graffu rheolaidd ar waith Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, yn ogystal â sesiynau tystiolaeth gyda Phrif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru, Keolis Amey, a Network Rail. Digon sigledig oedd dechrau masnachfraint newydd Trafnidiaeth Cymru yn 2018, a chyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar Amharu ar y Rheilffyrdd yn ystod yr Hydref 2018 ym mis Mai 2019. Er bod rhai mesurau perfformiad wedi gwella, gan gynnwys delio â phroblemau sy'n gysylltiedig â'r hydref, roedd y fasnachfraint yn llawn problemau gorlenwi nes i'r pandemig leihau nifer y teithwyr yn sylweddol.

**41.** Roedd bwriad i'r **gwasanaethau bysiau** gael ei ailwampio yn sgil deddfwriaeth arfaethedig a chyflawni'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Roedd y rhain i ddechrau yn rhan o gynigion deddfwriaethol ehangach yn y Papur Gwyn Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus, a oedd hefyd yn cynnwys 'Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth' a diwygiadau i drwyddedu Tacsi a Cherbydau Llogi Preifat (gweler yr adran ddeddfwriaeth). Ymgynghorodd y Pwyllgor â rhanddeiliaid ac ymatebodd i'r Papur Gwyn.

**42.** Mae Trafnidiaeth Cymru, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, yn hollbwysig o ran darparu rhwydwaith integredig, ac mae'n ehangu ei rôl yn sylweddol i gynnwys gwaith ar wasanaethau bysiau, priffyrdd, teithio llesol, modelu trafnidiaeth a chyflawni strategaeth a chynllunio trafnidiaeth. Bydd ei berthynas â chyrff strategol llywodraeth leol, y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd wedi'u deddfu yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn hanfodol. Yr hyn na ragwelwyd cyn i COVID-19 effeithio ar wasanaethau mor ddramatig oedd, erbyn mis Chwefror 2021, y byddai Trafnidiaeth Cymru hefyd wedi cymryd drosodd gweithrediadau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau fel "gweithredwr dewis olaf", ac y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwasanaethau bysiau drwy'r Bws Cynllun Brys (marc II). Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar y datblygiadau hyn hyd at ddiwedd y tymor hwn o'r Senedd a byddant yn flaenoriaeth i'r pwyllgor olynol sy'n gyfrifol am y portffolio trafnidiaeth.

**43.** Bu'r Arglwydd Burns yn briffio'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2020 ac ar 3 Chwefror 2021 sefydlwyd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTC) yn dilyn penderfyniad y Prif Weinidog i beidio â bwrw ymlaen â Ffordd Liniaru'r M4. Bydd angen i'r Chweched Senedd graffu ar y gwaith o weithredu argymhellion SEWTC.

**44.** Roedd ymchwiliad y Pwyllgor yn 2018 i Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru yn cynnwys cystadleuaeth ffotograffiaeth boblogaidd 'tyllau yn y ffordd' – agwedd ysgafn ar bwnc difrifol i ddefnyddwyr ffyrdd Cymru. Mae nifer o'r materion a ystyriwyd yn yr Adroddiad yn parhau i fod yn bwysig, gan gynnwys sut mae awdurdodau priffyrdd yn sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu rhaglenni cynnal a chadw, a sicrhau bod y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol newydd ar gyfer Trafnidiaeth yn cynnwys cyfres glir o brosiectau mawr yn yr arfaeth.

**45.** Mae perchnogaeth Llywodraeth Cymru ar Faes Awyr Caerdydd wedi bod yn eitem sy'n destun gwaith craffu rheolaidd. Yn fwyaf diweddar, gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ymuno â sesiwn Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 10 Mawrth 2021 i graffu ar becyn cymorth y Maes Awyr a gyhoeddwyd yr wythnos flaenorol.

## Sgiliau, ymchwil ac arloesedd

### Sgiliau

**46.** Y darn mawr cyntaf o waith ar sgiliau a wnaeth y Pwyllgor oedd yr Ymchwiliad i'r Ardoll Brentisiaethau yng Nghymru a adroddodd ym mis Mawrth 2017. Mae'r Ardoll yn dâl o 0.5 y cant ar filiau cyflog cyflogwyr mawr. Mae'r ardoll yn berthnasol ledled y DU ac edrychodd yr ymchwiliad yn benodol ar yr effaith ar Gymru, ac ar faterion trawsffiniol. Ym mis Awst 2018 cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad dilynol Yr Ardoll Brentisiaethau: Flwyddyn yn Ddiweddarach.

**47.** Roedd prentisiaethau yn thema allweddol yng ngwaith sgiliau'r Pwyllgor, gan gynnwys gradd-brentisiaethau. Ym mis Chwefror 2018 cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad Prentisiaethau yng Nghymru a oedd yn adeiladu ar rai o'r materion nad oeddent yn ymwneud â'r ardoll a nodwyd yn yr ymchwiliad blaenorol ar yr ardoll brentisiaethau, ac a oedd hefyd yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Menter a Busnes o'r Pedwerydd Cynulliad o'r un enw.

**48.** Yn ystod y Bumed Senedd cynigiodd Llywodraeth Cymru Fil Addysg, Hyfforddiant ac Ymchwil Ôl-orfodol (PCET) (a oedd yn fwy adnabyddus fel y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil). Er mwyn cael gwell sail craffu ar y Bil, ac i graffu ar weithgarwch ymchwil ac arloesedd prifysgolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru a sut mae'n cysylltu â busnesau, fe gynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad ar Ymchwil ac Arloesedd yng Nghymru a adroddodd ym mis Mehefin 2019. Cafodd cynlluniau ar gyfer y Bil eu rhoi o'r neilltu yn y pen draw o ganlyniad i COVID-19, gan ei fod yn cael ei gyhoeddi fel bil drafft ar gyfer ymgynghori. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn dal i fod yn ddadansoddiad defnyddiol o'r dirwedd ymchwil ac arloesedd yng Nghymru ac mae'r heriau a'r cyfleoedd a grybwyllir yn yr adroddiad yn parhau i fod yn fwy perthnasol nag erioed gyda diwedd ar gyllid yr UE bellach yn agosáu.

**49.** Ym mis Hydref 2019 cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPs). Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mawr yng ngweithgareddau'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'r cysylltiad rhyngddynt a diwydiant. O ystyried eu rôl allweddol yn y system sgiliau, a'u dylanwad dros gyfran fawr o ddarpariaeth addysg bellach a phrentisiaeth, daeth Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn nodwedd reolaidd o waith craffu'r Pwyllgor ar sgiliau.

**50.** Ym mis Tachwedd 2020 clywodd y Pwyllgor gan bob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ynghylch eu rôl yn adferiad o bandemig COVID-19. Trafodir hyn ymhellach isod, ac roedd yr Aelodau'n pryderu am y diffyg cyllideb ar gyfer pedwaredd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru a addawyd yng nghyllideb 2021/22. Pan ofynnwyd iddo am hyn yn sesiwn graffu'r Pwyllgor

dywedodd y Gweinidog y byddai'n dod o hyd i'r cyllid. Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu nad oedd rhanddeiliaid yn deall y partneriaethau yn dda ac nad oedd ganddynt yr adnoddau na'r gallu i gynnal y math o ddadansoddiad o'r farchnad lafur y teimlwyd yr oedd ei angen.

**51.** Ar ddiwedd 2019 lansiodd y Pwyllgor ymchwiliad i Radd-Brentisiaethau. Cafodd yr ymchwiliad ei ohirio yn sgil atal busnes a phenderfyniad y Pwyllgor i ganolbwyntio ar y pandemig. Pan gafodd busnes ei atal roedd y Pwyllgor wedi cwblhau ei waith o gasglu tystiolaeth ac wedi ymweld â Champws Gwyddor Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i gwrdd â grŵp o brentisiaid gradd, ond nid oeddent wedi gallu cymryd tystiolaeth gan y Llywodraeth. Ym mis Tachwedd 2020, unwaith yr oedd yr Aelodau'n teimlo ei bod yn briodol ailgychwyn gwaith nad oedd yn waith COVID-19, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar yr ymchwiliad.

**52.** Roedd lles prentisiaid a phobl sy'n gadael addysg, a pharhad y ddarpariaeth sgiliau, yn bryder allweddol i'r Aelodau yn nyddiau cynnar pandemig COVID-19. Er mai mater o bob un yn torchi ei lewys oedd hi mewn rhai sectorau, yn enwedig ar gyfer prentisiaid iechyd a gofal cymdeithasol, roedd prentisiaid eraill ar ffyrlo neu wedi eu hadleoli ac roedd eu dyfodol yn ansicr iawn – roedd y ddau beth hyn yn cyflwyno heriau difrifol i iechyd a lles y myfyriwr a chyrhaeddiad eu prentisiaeth. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi clywed tystiolaeth bryderus am gynnydd uchel mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc ac ynghylch erydiad sgiliau a seilwaith hyfforddi. I'r perwyl hwn, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad Effaith COVID-19: Sgiliau – Canfyddiadau Cynnar ym mis Mehefin 2020.

**53.** Fel yr amlinellwyd uchod, penderfynodd yr Aelodau gynnal ymchwiliad cyfannol i sut y dylid adfer o COVID-19 ar draws portffolio'r Pwyllgor. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021 ac o safbwynt sgiliau, ac ymchwil ac arloesedd amlygwyd y canlynol:

- Sut y gall adferiad a arweinir gan sgiliau adfywio ac ail-arfogi'r economi;
- Pwysigrwydd buddsoddiad ymchwil ac arloesi mewn adferiad, gan gynnwys sut y gall hyn gryfhau gwydnwch i addasu i siociau yn y dyfodol;
- Sut y gall sgiliau gefnogi adferiad gwyrdd a diogel at y dyfodol;
- Pwysigrwydd sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi ar gael i bawb, waeth beth fo'u cefndir, ac annog pobl i gymryd cyfleoedd hyfforddi a fydd yn arwain at swyddi mewn meysydd lle mae pobl fel nhw yn cael eu tangynrychioli.

## Perthynas Cymru â'r UE/Cymru ar ôl Brexit

**54.** Yn ystod y Bumed Senedd arweiniodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol waith ar Borthladdoedd a Masnach gan ei fod yn ymwneud â pherthynas y DU â'r UE ac effaith Brexit ar Borthladdoedd Cymru. Pan godwyd materion yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, cawsant eu nodi mewn gohebiaeth â Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn monitro datblygiad Fframweithiau Cyffredin sy'n dod o fewn ei gylch gwaith, yn bennaf mewn perthynas â thaliadau hwyr a chaffael cyhoeddus. Mater i'r Chweched Senedd fydd craffu ar fframweithiau terfynol a goblygiadau i Gymru.

## Eitemau craffu rheolaidd fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 16.1

**55.** Mae gwaith craffu'r Pwyllgorau, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 16.1 (i), o "wariant, trefniadau cyllido, gweinyddiaeth a pholisi'r Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi" wedi cynnwys:

- Craffu cyffredinol ar waith Gweinidogion bob tymor;
- Archwilio cyllideb yn ystod y flwyddyn ac yn flynyddol;
- Craffu blynyddol ar waith Banc Datblygu Cymru;
- Craffu ar flaenoriaethau Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru a gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer unrhyw Gadeiryddion a benodir. Mae rhagor o fanylion yn yr adran seilwaith uchod.

# 3. Deddfwriaeth a gyfeiriwyd at y Pwyllgor

Cyfeiriwyd swm cymharol fechan o ddeddfwriaeth at y Pwyllgor. Yr unig Fil Senedd oedd y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), a gafodd ei dynnu'n ôl wedi hynny gan y Llywodraeth oherwydd COVID-19.

## Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

**56.** Cyflwynwyd y Bil gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar 16 Mawrth 2020 a'i anfon i'r Pwyllgor i graffu arno. Amcan y polisi oedd darparu ystod well o offer i awdurdodau lleol i'w defnyddio wrth gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol yn eu hardal, a gwella'r wybodaeth sydd ar gael am wasanaethau bysiau.

**57.** Gwnaeth y Bil ddarpariaeth ar gyfer creu Cynlluniau Partneriaeth Cymru (WPS), Cynlluniau Masnachfreinio Cymru (WFS), ac i awdurdodau lleol redeg eu gwasanaethau bysiau eu hunain. Byddai awdurdodau lleol yn gallu defnyddio unrhyw un neu bob un o'r opsiynau hyn i wella gwasanaethau bysiau yn eu hardal. Ceisiodd y Bil hefyd ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu data am wasanaethau bysiau lleol ('data agored') y gellid eu defnyddio i roi mynediad i'r cyhoedd at wybodaeth fwy cyson, dibynadwy a chyfoes am wasanaethau bysiau. Ceisiodd hefyd roi'r pŵer i awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth, gan gynnwys data ar brisiau, refeniw a theithwyr, gan weithredwyr bysiau ar lwybrau y maent yn cynnig eu newid neu eu tynnu'n ôl.

**58.** Gohiriwyd y gwaith craffu ar y Bil oherwydd y pandemig, ac ar 1 Ebrill 2020 cyhoeddodd y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig ar ddull y Llywodraeth o ymdrin â deddfwriaeth yn dilyn yr achosion o COVID-19. Ni chafodd y Bil ei flaenoriaethu ar gyfer dilyniant ond roedd yn parhau i fod o dan adolygiad parhaus. Ar 15 Gorffennaf 2020, hysbysodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, sy'n gyfrifol am y Bil, fod y Bil yn cael ei dynnu'n ôl yn unol â Rheol Sefydlog 26.79.

## Gwaith Craffu ar ôl Deddfu ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

**59.** Roedd craffu ar ôl deddfu ar sut roedd y Ddeddf yn cael ei gweithredu yn adeiladu ar waith craffu cychwynnol a wnaed gan y Pwyllgor Menter a Busnes blaenorol yn y Pedwerydd Cynulliad (Teithio Llesol: dechrau'r daith - Chwefror

2016.) Roedd y gwaith hwn yn cynnwys gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau ffocws, arolwg a ffilm fer, ac adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017.

## Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

**60.** Adroddodd y Pwyllgor ar saith Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Roedd pump ar ddeddfwriaeth y DU yn ymwneud ag ardrethi annomestig (h.y. cyfraddau busnes), gan gynnwys symud dyddiadau ailbrisio yn dilyn COVID-19. Roedd un arall ar orfodi towtio tocynnau yn ymwneud â Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham, ac roedd un yn ymwneud â darpariaethau yn y Bil Gwasanaethau Ariannol yn ymwneud â rheoli dyled a chyngor.

**61.** Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr holl Femoranda yr adroddodd arnynt yn ymwneud â Biliau a oedd yn darparu at ddibenion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, nid oedd y Pwyllgor yn gwrthwynebu i'r Senedd gymeradwyo'r Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol a oedd yn gysylltiedig ag unrhyw un ohonynt.











**Ochr chwith, brig:** Lansio'r Adroddiad Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.
**Ochr dde, brig:** Yr Aelodau yn beirniadu cystadleuaeth ffotograffiaeth tyllau yn y ffordd fel rhan o'r ymchwiliad i Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru.
**Yn y canol:** Aelodau'r Pwyllgor yn ymweld â Chanolfan Cynnal a Chadw British Airways yng Nghaerdydd.
**Ochr chwith, gwaelod:** Oscar Asghar AS gydag aelodau'r Pwyllgor yn ymweld â Chyfleuster Cancer Research UK yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd.
**Ochr dde, gwaelod:** Aelodau yn ymweld â chanolfan cynnal a chadw'r rheilffordd yn Nhreganna.

# 4. Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

Ar sail ei waith ymchwiliadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y Bumed Senedd, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y materion a nodir isod yn flaenoriaethau pwysig i Bwyllgor(au) olynol y Chweched Senedd.

## Yr Economi

**Datblygu economaidd ac adfywio**

- Datblygu Economaidd Rhanbarthol a buddsoddiad mewn economïau rhanbarthol. Mae yna lawer o weithredwyr a llawer o bolisïau yn y gofod datblygu economaidd rhanbarthol. Bydd datblygiad parhaus y Bargeinion Dinesig a Thwf, yn enwedig y Bargeinion a gymeradwywyd yn y Bumed Senedd, yn bwysig.
- Bydd sut mae polisïau a seilwaith datblygu economaidd rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio ag agenda codi'r gwastad Llywodraeth y DU yn fater pwysig. Byddai hyn yn cynnwys disodli cyllid yr UE gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU, y Gronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Perchnogaeth Gymunedol. Byddai hefyd yn ymdrin â datblygu a gweithredu'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a'u rôl wrth hyrwyddo lles economaidd.
- Gweithredu Adroddiad yr OECD ar Ddyfodol Datblygu Rhanbarthol a Buddsoddiad Cyhoeddus yng Nghymru.
- Adfywio Canol Trefi a Chymunedau: Trawsnewid Canol Trefi; Tasglu'r Cymoedd a chefnogi'r cymunedau sydd wedi'u gadael ar ôl fwyaf.

**Adferiad COVID-19**

- Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar adferiad COVID gan nodi dull manwl a chyfannol o ailfywiogi ac ail-arfogi economi Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at sawl risg a chyfleoedd y bydd angen eu cymryd a mynd i'r afael â nhw yn nhymor nesaf y Senedd gan gynnwys:

- Cefnogi sectorau sydd wedi'u taro'n galed gan gynnwys twristiaeth, lletygarwch, diwylliant/celfyddydau a gwallt a harddwch;
- Mynd i'r afael â'r cynnydd o'n blaenau mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc er mwyn atal cenhedlaeth wedi'i chreithio;
- Cydraddoldeb yn yr adferiad, sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl ond hefyd yn defnyddio'r adferiad i hyrwyddo nodau cydraddoldeb;
- Hyrwyddo adferiad gwyrdd; a
- Dyfodol manwerthu o ganlyniad i'r newidiadau mewn ymddygiad yn ystod y pandemig.

**Dyfodol diwydiant a gwaith**

- Dyfodol gweithgynhyrchu i Gymru - cefnogaeth barhaus i ddiwydiant gweithgynhyrchu Cymru, ac argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor ar Adferiad tymor hir o COVID-19 ar gefnogaeth i sectorau yr effeithir arnynt yn yr hirdymor gan gynnwys awyrofod a dur.
- Cyfleoedd a'r risgiau parhaus o fwy o Awtomeiddio ac AI.
- Gweithio o Bell: Goblygiadau i Gymru - symud ymlaen gyda chyfeiriad a gweithrediad polisi gweithio o bell ac effeithiau economaidd-gymdeithasol hynny, gan gynnwys ymateb i'r 15 argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor y cafwyd dadl arno ar 17 Mawrth 2021.
- Y rhyngweithio rhwng gofalu a chyflogaeth, gan gynnwys magu plant a gofal di-dâl. Yn y Bumed Senedd, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau adroddiad ar rianta a chyflogaeth, sef mater sy'n pontio cylch gwaith y ddau Bwyllgor. Wrth i weithio o bell gael ei sefydlu, bydd mwy o ryddid i bobl gydbwyso gofal a gwaith ond gall hynny hefyd roi mwy o ddisgwyliadau yn enwedig ar fenywod gan eu bod ar hyn o bryd yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith gofalu.
- Gwaith teg - craffu ar y gwaith o weithredu argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg a mynd i'r afael â materion Gwaith Teg sy'n deillio o'r pandemig.

**Yr economi sylfaenol a chaffael cyhoeddus**

- Cefnogi'r Economi Sylfaenol gan gynnwys rhaglenni ac unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig i gryfhau a chefnogi rôl caffael cyhoeddus i ysgogi gwerth cymdeithasol a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol.

- Yn ogystal â rhan o'r economi sylfaenol mae rôl caffael cyhoeddus yn fwy cyffredinol yn cynnwys cryfhau sgiliau caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru a hyrwyddo statws y proffesiwn caffael.

**Gyrwyr economaidd eraill**

- Diwygio Ardrethi Busnes - cynnydd a goblygiadau i Gymru.

- Mynediad at Fancio - craffu ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Banc Cambria, yn dilyn adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn 2019 a mapio'r dirywiad mewn mynediad at ganghennau arian parod a banciau yng Nghymru ac effaith hynny ar bobl a chymunedau.

## Seilwaith

- Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru – ei statws yn y dyfodol, ei rôl, ei gyfeiriad strategol a'i arweinyddiaeth.

- Cynllunio Gofodol Strategol: Dyfodol Cymru: y cynllun cenedlaethol 2040 a datblygu Cynlluniau Datblygu Strategol gan awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol (cyfeiriwyd y cyfrifoldeb am graffu ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ond Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau fu'n craffu ar y materion seilwaith).

- Cau'r rhaniad digidol, yn benodol y cwestiynau canlynol:

  - Band eang gwibgyswllt - sut y gall Cymru ddal i fyny â chyfartaledd y DU?

  - Pa mor agos at 100 y cant ddylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU geisio cael signal band eang cyflym iawn?

  - A yw Llywodraeth y DU yn gwneud digon i wella signal band eang yng Nghymru, o ystyried bod telathrebu yn fater a gadwyd yn ôl?

- A fydd angen trydydd cynllun seilwaith band eang ar raddfa fawr wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru?
- A yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon gyda'i ysgogiadau datganoledig (e.e. cynllunio ac ardrethi busnes) i wella'r amgylchedd masnachol ar gyfer seilwaith telathrebu?

## Trafnidiaeth

- Blaenoriaethau Adferiad COVID-19 – fel y nodir yn adran Adferiad Trafnidiaeth yn adroddiad y Pwyllgor ar Adferiad Tymor Hir o COVID-19.
- Strategaeth Drafnidiaeth a chyflawni Cynlluniau Trafnidiaeth Cenedlaethol a Rhanbarthol.
- Cynnydd ar ddatgarboneiddio targedau trafnidiaeth; cyflawni newid ymddygiad a newid moddol.
- Craffu ar lywodraethu, cylch gwaith a swyddogaethau Trafnidiaeth Cymru, e.e. cyfrifoldeb am deithio llesol; bysiau; modelu trafnidiaeth; llywodraethu a darparu tair rhaglen Metro Cymru; cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Strategaeth Trafnidiaeth Cymru; a'i berthynas â'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.
- Dyfodol gwasanaethau rheilffyrdd – gan gynnwys craffu ar weithrediadau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru gwladoledig, blaenoriaethau seilwaith rheilffyrdd; cyflwyno'r rhaglenni Metro; a chanlyniad Adolygiad Rheilffordd Williams.
- Dyfodol gwasanaethau bysiau – gweithredu Cynllun Argyfwng Bysiau II a'r angen am fodelau ariannu newydd a deddfwriaeth.
- Cynnydd gyda diwygio trwyddedu tacsi a llogi preifat.
- Datblygiad y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a'u rôl wrth ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth integredig (gweler yr economi hefyd).
- Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn gweithredu argymhellion SEWTC.
- Cynnydd wrth weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.
- Diogelwch ar y Ffyrdd, gan gynnwys cynnydd cynlluniau peilot terfyn 20mya a deddfwriaeth arfaethedig.

- Maes Awyr Caerdydd – craffu ar y cynllun achub ac adfer a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

## Sgiliau ac ymchwil ac arloesedd

- Mae adroddiad y Pwyllgor ar Adferiad Tymor Hir o COVID-19 yn nodi gweledigaeth o **adferiad dan arweiniad sgiliau.**

- Ni wnaeth Llywodraeth Cymru weithredu argymhellion Adolygiad Reid yn y Bumed Senedd yn llawn. Mae'n hysbys bod **ymchwil ac arloesedd** yn sbardun allweddol o ran cynhyrchiant a bydd ganddynt rôl hollbwysig yn adferiad COVID-19, ond eto maent yn wynebu heriau sylfaenol yng Nghymru oherwydd diwedd cyllid yr UE. Diffyg dull strategol ar gyfer ymchwil ac arloesedd yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn pryderu efallai na fydd Llywodraeth Cymru yn deall yn llawn gyfanswm ei lefelau a'i meysydd gwariant ei hun ar y gweithgareddau hyn gan na ddarparwyd y wybodaeth hon yn y datganiadau cyllideb.

- Ailddatblygu'r **Cynllun Cyflogadwyedd a rhaglenni cymorth Cyflogadwyedd** gyda phwyslais penodol ar effeithiolrwydd y rhaglen cyflogadwyedd sy'n cael ei chaffael ar hyn o bryd; deall ac olrhain dysgwyr unigol ac unrhyw "drosiant" rhwng cyflogaeth, hyfforddiant a pheidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; a gyda ffocws beirniadol ar rôl y system sgiliau wrth atal diweithdra ymysg pobl ifanc.

- Datblygiad pellach a gallu **Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol**, a'u rôl wrth gefnogi adferiad COVID-19 a gwella economi Cymru. Yn enwedig datblygu Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

- Rhaglen **dyfodol Prentisiaeth 2021 newydd** gan gynnwys datblygu fframweithiau prentisiaeth newydd, gradd-brentisiaethau ac arallgyfeirio mynediad at raglenni prentisiaeth sydd fel arfer yn cael eu dominyddu gan un rhywedd neu un ran o gymdeithas.

- Rôl **Sgiliau** wrth annog pobl i ddilyn gyrfaoedd mewn meysydd lle mae pobl o'u cefndir nhw wedi'u tangynrychioli, ac felly **mynd i'r afael ag anghydbwysedd strwythurol yn y gweithlu**. Mae hyn yn arbennig o allweddol yng ngoleuni'r cyfleoedd a ddaw yn sgil adferiad COVID-19.

- **Sgiliau ar gyfer y dyfodol** - hyfforddiant sgiliau ar gyfer economi'r dyfodol. Defnyddio hyfforddiant sgiliau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu meysydd twf yr economi a ffyniant a chyfleoedd bywyd unigolion. Mae

hyn yn cyd-fynd yn benodol ag argymhellion adferiad COVID-19 y Pwyllgor a'r syniad o 'Adferiad Gwyrdd'.

## Perthynas Cymru â'r UE/Cymru ar ôl Brexit

- Gwerthu Cymru i'r byd. Mae hyn yn cynnwys meithrin perthnasoedd economaidd gan gynnwys hyrwyddo masnach ac atyniad buddsoddiad mewnol ynghyd â hyrwyddo Cymru i ymwelwyr i gefnogi sector twristiaeth sy'n adfer.
- Dyfodol porthladdoedd Cymru, mewn byd ar ôl Brexit gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu porthladdoedd rhydd yma ac yng ngweddill y DU.
- Craffu ar Fframweithiau Cyffredin, gan gynnwys y fframwaith ar gyfer caffael cyhoeddus.

## Cyffredinol

**62.** Roedd yr Aelodau yn teimlo bod monitro a gwerthuso a sicrhau dull cydgysylltiedig yn ymddangos fel themâu yn nifer o adroddiadau ac argymhellion y Pwyllgor. Yn benodol:

- Bydd monitro a gwerthuso effeithiol yn erbyn canlyniadau ystyrlon sydd wedi'u gosod ar ddechrau prosiectau a rhaglenni yn hanfodol, yn anad dim er mwyn sicrhau bod gwariant ar gyfer Adferiad COVID yn cael yr effaith orau bosibl; a
- Mae cymaint o wahanol bolisïau a gweithredwyr ar waith ym maes datblygu rhanbarthol fel y bydd dull cydgysylltiedig yn hanfodol er mwyn osgoi, ar y gwaethaf, dryswch ac, ar y gorau, gwariant cystadleuol a gwastraffus. Mae materion tebyg yn bodoli ym maes trafnidiaeth yn ymwneud â chynllunio, defnydd tir a rhyngweithio â pholisi trafnidiaeth ac mewn ymchwil ac arloesi ynghylch ffynonellau cyllido a gwariant.

## Cyngor i aelodau'r dyfodol

**63.** Er mai Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor neu Bwyllgorau olynol sydd i benderfynu ar eu fformat a'u cyfeiriad, roedd yr Aelodau yn awyddus i gynnwys rhai pwyntiau bwled o gyngor ynghylch yr hyn a oedd yn ddefnyddiol yn y tymor seneddol hwn a'r hyn y gallai'r Aelodau gadw mewn golwg ar gyfer y Chweched Senedd:

- Ar ddechrau'r Tymor, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn hyfforddi ar graffu gyda hwylusydd allanol. Yn ystod y sesiwn hon fe wnaethom ddysgu llawer, fe wnaethom osod y nodau ar gyfer y Pwyllgor y soniwyd amdanynt yn Rhagair y Cadeirydd ac fe wnaeth hyfforddiant y sesiwn ein helpu ni i gydweithio fel grŵp. Rydym yn argymell bod y pwyllgor olynol yn edrych ar gynnal ymarfer hyfforddi a gosod nodau tebyg.

- Rydym yn trafod uchod bod angen i'r Llywodraeth gael dull cydgysylltiedig. Mae craffu cydgysylltiedig hefyd yn bwysig. Roedd mwyafrif yr Aelodau yn y tymor seneddol hwn yn eistedd ar sawl Pwyllgor ac roedd gan bob un ohonom ein diddordebau etholaethol amrywiol ein hunain, aelodaeth o grwpiau trawsbleidiol a meysydd arbenigedd eraill nad ydynt yn gysylltiedig â Phwyllgorau. Roedd dod â'r cyfoeth hwn o wybodaeth at y bwrdd yn caniatáu inni edrych ar y darlun mawr ac effeithiau ehangach, nid manylion yn unig, y polisi yr oeddem yn ei archwilio.